| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **3 Gorffennaf 2025** |
| **Pwnc** | **Argymhelliad Panel Cyfweld – Penodi Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Cadeirydd y Panel** | **Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **Awdur** | **Pennaeth Cyllid** |

1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi addasu Mesur Llywodraeth Leol 2011 mewn perthynas â phwyllgorau llywodraethu ac archwilio awdurdodau lleol Cymru.

2. Ers Mai 2022 rhaid i o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor fod yn aelodau lleyg (a rhaid i'r Cadeirydd fod yn un o'r aelodau lleyg hynny).

3. Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cyngor llawn bydd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 18 aelod, gyda 12 o'r aelodau yn aelodau o Gyngor Gwynedd a 6 aelod lleyg o Mai 2022 ymlaen.

4. Mae'r adroddiad perthnasol i'w gael yma:

   Eitem 11 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.pdf

5. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i aelodau lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael eu penodi gan y Cyngor llawn ar argymhelliad panel penodi a phenodi.

6. Yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022, apwyntiodd y Cyngor llawn 4 o aelodau lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu am gyfnod o 5 mlynedd sef Mr Hywel Eifion Jones, Mrs Sharon Warnes, Mr Rhys Parry a Mrs Clare Hitchcock. Penodwyd aelod lleyg pellach, Mrs Carys Edwards, ar 1 Rhagfyr 2022.

7. Roedd hynny'n golygu fod un sedd aelod lleyg wedi parhau'n wag. Bu i Mrs Clare Hitchcock ymddiswyddo fel aelod lleyg ar ddiwedd Rhagfyr 2024 oherwydd ymrwymiadau gwaith ac ym mis Mai 2025 derbyniwyd y newyddion hynod drist am farwolaeth Mrs Sharon Warnes, a fu'n gwasanaethu fel aelod lleyg o'r Pwyllgor ers 2017. Felly, mae tri sedd wag angen ei llenwi erbyn hyn.

8. Derbyniwyd 13 o enwau yn y rownd ddiweddaraf o hysbysebu a lluniwyd rhestr fer o 6 enw trwy ddiystyru ceisiadau nad oedd wedi ateb cwestiynau sylfaenol ar y ffurflen gais am brofiadau o'r maes llywodraethu. Yn anffodus, tynnodd dau unigolyn eu henwau yn ôl cyn y cyfweliadau felly ar 20 a 23 Mehefin, cafodd pedwar ymgeisydd eu cyfweld gan banel oedd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor (y Cynghorydd Ioan Thomas), Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth (y Cynghorydd Anne Lloyd-Jones) a'r Aelod Cabinet dros Gyllid (Y Cynghorydd Huw Wyn Jones). Yn cynghori'r y panel roedd y Swyddog Cyllid Statudol (Dewi Morgan) a'r Swyddog Monitro (Iwan Evans).

9. Ar ôl ystyried y cais yn ofalus a thrylwyr, penderfynodd y Panel fod y 3 ymgeisydd yn cyrraedd y meini prawf, a dylid argymell i'r Cyngor llawn bod Dr Peter Barnes, Mr Dewi Lewis a Mr Paul Millar-Mills a yn cael eu penodi'n aelodau lleyg o'r Pwyllgor.

10. Mae Dr Peter Barnes yn byw yn Nolgellau ac yn rhedeg busnes yn y dref gyda'i wraig ar ôl gyrfa hir yn y maes academaidd. Bu'n aelod annibynnol o Gyngor Tref Dolgellau am gyfnod ac mae wedi gweithio fel darlithydd, hyfforddwr, arweinydd grŵp ac aelod o grwpiau achub amrywiol. Mae Dr Barnes hefyd yn olygydd cylchgrawn ers 3 blynedd.

11. Mae gan Mr Dewi Lewis brofiad helaeth o lywodraeth leol, y trydydd sector ac o fusnes preifat. Bu'n aelod o Gyngor Gwynedd hyd Gorffennaf 2011 gan wasanaethu ar Fwrdd y Cyngor. Roedd yn berchennog Siop Dewi ym Mhenrhyndeudraeth o 1979 hyd 2024. Nid yw Mr Lewis bellach yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol.

12. Mae Mr Paul Millar-Mills yn ŵr busnes profiadol ac er ei fod wedi lled-ymddeol mae'n parhau i redeg siop ym Mhwllheli ac wedi gwario ei yrfa yn hunan-gyflogedig yn ardaloedd Sir Caer a Gwynedd. Mae ganddo brofiad o fod yn aelod ac yn Gadeirydd ar Gymdeithas Fasnachwyr.

**Argymhelliad**

**Penodi Dr Peter Barnes, Mr Dewi Lewis a Mr Paul Millar-Mills fel Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y 5 mlynedd nesaf yn ddarostyngedig i dderbyn geirda dderbyniol.**

---

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**

Gallaf gadarnhau fod y Panel wedi gweithredu eu swyddogaethau yn briodol yn unol a'r drefn a sefydlwyd gan y Cyngor ar gyfer apwyntio aelodau lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Pennaeth Cyllid:**

Awdur yr adroddiad